# Cydosod pibelli a ffitiadau ar gyfer gweithgareddau rhwydwaith nwy

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chydosod pibelli a ffitiadau ar gyfer gweithgareddau rhwydwaith nwy.

Gall fod yn berthnasol i unrhyw fath o nwy tanwydd neu gyfuniadau o nwy tanwydd gan gynnwys nwy naturiol, LPG, hydrogen cyfunol neu 100%, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Mae hyn yn golygu dewis a gwirio cyflwr pibellau, ffitiadau ac offer, cynhyrchu cydosodiadau, eu diogelu a gweithio yn unol â gofynion ansawdd a diogelwch a safonau'r diwydiant.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheini sy'n gwneud gweithrediadau yn ystod gweithgareddau rhwydwaith nwy.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis y math o bibellau a ffitiadau yn unol â chyfarwyddiadau gwaith a manylebau technegol
2. gwirio cydrannau a chyfarpar gosod ar gyfer gweithrediad a sicrhau nad ydynt yn cael eu difrodi
3. dilyn gweithdrefnau i newid unrhyw bibellau neu ffitiadau diffygiol, pibellau neu ffitiadau nad ydynt yn cydweddu a phibellau neu ffitiadau is-safonol
4. dewis a gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) gofynnol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. gwneud yn siŵr bod cyflwr y gwaith cloddio yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau’r gwaith a’r manylebau technegol
6. dewis, paratoi a gweithredu cyfarpar gosod yn unol â chyfarwyddiadau gweithredol a gweithdrefnau sefydliadol y gwneuthurwr
7. lleoli pibellau a ffitiadau yn unol â’r fanyleb
8. cydosod pibellau a ffitiadau yn unol â safonau’r diwydiant gan ddefnyddio technegau uniadu priodol
9. cymryd rhagofalon digonol i atal difrod i bibellau, ffitiadau, offer a chyfarpar wrth eu gosod
10. diogelu asedau sydd wedi’u gosod gyda llenwad mân yn unol â chyfarwyddiadau gwaith a manylebau technegol
11. cynnal y pellteroedd agosrwydd oddi wrth gyfarpar cyfleustodau eraill yn unol â’r manylebau technegol
12. sicrhau bod asedau sydd wedi'u gosod wedi'u cynnal a'u hangori yn unol â'r manylebau technegol
13. cynnal diogelwch y system a thrydydd partïon lle nad yw'r gwaith yn gyflawn neu lle nad yw'n unol â'r amserlen
14. sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â gweithdrefnau gweithio diogel drwy gydol y gwaith
15. gwirio ansawdd y gosodiad a chadarnhau ei fod yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
16. rhoi gwybod - i'r person dynodedig - am unrhyw ddifrod i offer, cyfarpar neu ddeunyddiau
17. rhoi gwybod i'r person dynodedig am waith sy'n anghyflawn ac nad yw wedi'i gyflawni yn unol â’r amserlen

18. cyfeirio problemau ac amodau y tu allan i gyfrifoldeb y swydd at y person penodedig gan ddefnyddio gweithdrefnau cymeradwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. prif gyfrifoldebau’r cyflogwr a’r gweithiwr dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch
2. prif gyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol
3. llinellau adrodd, rolau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdod y cwmni
4. gweithdrefnau diogel ar gyfer trin deunyddiau peryglus
5. gweithdrefnau cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau'r sefydliad
6. yr ystod a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol ar gyfer y gweithgaredd gwaith
7. gwahanol ddulliau o gael gafael ar fanylebau technegol o ddogfennau cyfeirio, llawlyfrau, rheoliadau, codau ymarfer, asesiadau risg a datganiadau dull a sut i'w dehongli
8. sut i ddehongli cyfarwyddiadau gwaith gan gynnwys lluniadau, cofnodion, awdurdodiadau gwaith a gwybodaeth arall sy'n benodol i brosiect
9. peryglon posibl ynni wedi'i storio, fflamadwyedd a mygu
10. pwysigrwydd cydymffurfio â safonau cyfredol y diwydiant a pholisi a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer bodloni gofynion statudol, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol
11. peryglon posib mewn ffosydd a chloddiadau
12. peryglon gwneud pethau sy'n gallu achosi risgiau mannau cyfyng mewn cloddiadau
13. goblygiadau defnyddio'r peiriannau, offer, deunyddiau a chydrannau system anghywir
14. camau i'w cymryd pan nad yw peiriannau, offer, deunyddiau a system yn cyrraedd y manylebau gofynnol
15. gwallau sy'n gysylltiedig â defnyddio dulliau ac offer gosod amhriodol
16. peryglon gweithdrefnau codi a chario annigonol

EUSGNC3

Cydosod pibelli a ffitiadau ar gyfer gweithgareddau rhwydwaith nwy

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 20 Maw 2031 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 20 Maw 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSGNC012 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydweithiau Nwy, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Ddefnyddioldeb |
| **Geiriau Allweddol** | nwy, LPG, hydrogen, rhwydwaith, rhwydwaith nwy, adeiladu, gweithrediadau, asedau, cydrannau ac asedau, gweithiwr, dewis, gwirio cyflwr, diogel, pibellau, ffitiadau, cyfarpar, cydosodiadau |